

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod Hybrid Arbennig a gynhaliwyd am 6.05 p.m. ar 13 Ionawr, 2025

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Elliot Penn (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

732 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

733 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Vince Driscoll, Robert Fisher ac Ewan Goodjohn.

734 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

735 PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR AR EIDDO GWAG HIRDYMOR AC AIL GARTREFI (CYF) –

Ceisiodd yr Arweinydd gymeradwyaeth ar yr adroddiad ar gyfer mabwysiadu'r polisi ar gyfer Treth Gyngor Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi ar gyfer 2025-26. Cynigiwyd parhau â pholisi presennol y Cyngor ar gyfer 2025/26 ac ar gyfer eiddo a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hirdymor ac a oedd yn cael eu meddiannu o bryd

i'w gilydd roedd y Cyngor yn bwriadu parhau â'i bolisi a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2024. Polisi presennol y Cyngor hefyd oedd codi premiwm o 100% ar eiddo a oedd wedi bod yn wag am gyfnod parhaus o 12 mis hyd at (ond heb gynnwys 3) 24 mis a phremiwm o 150% ar gyfer eiddo a oedd wedi bod yn wag am gyfnod parhaus o 24 mis neu fwy. Cynigiwyd ymhellach y dylid parhau â'r polisi hwn ar gyfer 2025/26 nes bod eiddo wedi aros yn y cyflwr hwn am gyfnod o 36 mis ac ar yr adeg honno byddai premiwm o 200% yn cael ei godi. Polisi presennol y Cyngor yw codi premiwm o 100% ar eiddo sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd (y cyfeirir atynt yn gyffredin fel ail gartrefi).

Cynigiodd yr Arweinydd argymhellion yr adroddiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Brooks.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll fod ei blaid yn cefnogi'r egwyddor o weithio i adnewyddu cartrefi gwag i'w defnyddio eto, fodd bynnag, dywedodd fod person wedi cysylltu ag ef gyda bil treth Gyngor mawr heb unrhyw fai arno fe ei hun ac felly ni allai gefnogi'r argymhellion. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd yn briodol i gyfarfod y Cyngor ystyried achosion unigol gan roi gwybod i'r Cynghorydd Carroll y dylai gyfeirio materion o'r fath at yr adran berthnasol ar gyfer ymchwilio ymhellach.

Gofynnodd y Cynghorydd Johnson a allai perchnogion tai geisio osgoi'r premiwm gan ddweud mai dim ond amser fyddai'n dweud beth fyddai'r effaith.

Cynigiodd yr Arweinydd argymhellion yr adroddiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Brooks.

Cynhaliwyd Pleidlais Gofnodedig ar argymhellion yr adroddiad.

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Anne Asbrey	√		
Julie Aviet	√		
Gareth Ball	√		
Rhiannon Birch	√		
Bronwen Brooks	√		
Gillian Bruce		√	
Ian Buckley	√		
Lis Burnett	√		
Samantha Campbell	√		

George Carroll		√	
Christine Cave		√	
Charles Champion		√	
Janice Charles		√	
Millie Collins	√		
Marianne Cowpe	√		
Pamela Drake	√		
Anthony Ernest		√	
Christopher Franks	√		
Wendy Gilligan	√		
Russell Godfrey		√	
Emma Goodjohn	√		
Stephen Haines		√	
Howard Hamilton	√		
Sally Hanks	√		
William Hennessy		√	
Nic Hodges	√		
Mark Hooper	√		
Catherine Iannucci-Williams	√		
Gwyn John	√		
Dr. Ian Johnson	√		
Susan Lloyd-Selby	√		
Belinda Loveluck-Edwards	√		
Julie Lynch-Wilson	√		
Kevin Mahoney			√

Naomi Marshallsea	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Helen Payne	√		
Elliot Penn	√		
Sandra Perkes	√		
Ian Perry	√		
Joanna Protheroe	√		
Ruba Sivagnanam	√		
Carys Stallard	√		
Neil Thomas	√		
Rhys Thomas		√	
Steffan Wiliam	√		
Margaret Wilkinson	√		
Eddie Williams	√		
Mark Wilson	√		
Nicholas Wood		√	
CYFANSWM	39	11	1

Ar ôl cael ei roi i bleidlais Gofnodwyd fe'i gwnaed yn ddiweddarach

PENDERFYNWYD –

(1) Bod y polisi i beidio â chaniatáu unrhyw lefel o ddisgownt ar gyfer anheddau gwag sydd wedi aros felly am 6 mis y cytunwyd arno ar gyfer 2024-25, yn cael ei gymeradwyo ar gyfer 2025-26.

(2) Bod y premiwm eiddo gwag hirdymor o 100% y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2024 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael ei gymeradwyo i'w barhau ar gyfer eiddo o'r fath o 2025-26 sy'n parhau felly am y cyfnod hyd at (ond heb gynnwys) 24 mis.

(3) Cymeradwyo parhau â'r premiwm eiddo gwag hirdymor o 150% y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2024 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 ar gyfer eiddo o'r fath o 2025-26 sy'n parhau felly am gyfnod parhaus o 24. misoedd hyd at (ond heb gynnwys) 36 mis.

(4) Y dylid, fel y cytunwyd gan y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2024, gyflwyno premiwm o 200% o 1 Ebrill, 2025 ar gyfer eiddo gwag hirdymor sydd wedi aros felly am gyfnod parhaus o 36 mis neu fwy.

(5) Bod y premiwm o 100% ar gyfer eiddo a feddiannir yn gyfnodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 y cytunwyd arno ar 6 Mawrth, 2024 yn cael ei ailddatgan a'i gymeradwyo i barhau ar gyfer 2025-26.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar ei bolisi ar ddisgowntiau mewn perthynas ag anheddau gwag fel y'u diffinnir yn nosbarthiadau A, B ac C i Reoliadau Treth y Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998 bob blwyddyn.

(2) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar ei bolisi ynghylch premiymau mewn perthynas ag eiddo gwag hirdymor fel y'i diffinnir yn Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

(3) Ar ôl adolygu gweithrediad y premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor a gyflwynwyd o ddechrau 1 Ebrill, 2023, teimlwyd y gallai cynnydd syth yn lefelau'r premiwm fel y cynigiwyd yn flaenrol wrthweithio bwriad y polisi, sef dod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd, pe bai lefel y taliadau dyledus yn rhwystro gwaith angenrheidiol i wneud annedd yn gyfanheddol. O'r herwydd teimlwyd y byddai agwedd fesul cam yn fwy cydnaws â'r polisi i sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu targedu.

(4) Fel (2) uchod.

(5) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar ei bolisi ynghylch premiymau mewn perthynas ag ail gartrefi fel y'u diffinnir yn Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.